

# DEALL BETH SY’N MYND AR EICH TIR – RHESTR WIRIO AR GYFER TAENU GWASTRAFF AR DIR

*Canllawiau ar gyfer defnyddio gwastraff a deunyddiau wedi'u hailgylchu ar eich fferm*

## MANTEISIO AR YR ENILLION OND LLEIHOU’R PERYGLON

Dylai ffermwyr gofio am y rheoliadau gwastraff wrth ddod â deunyddiau ar eu ffermydd. Gallai taenu deunyddiau anaddas ar dir eich fferm gostio’n ddrud i chi mewn costau clirio neu hyd yn oed arwain at eich erlyn.

Mae gwastraff a’i gynnyrch yn cael eu cludo i ffermydd am nifer o resymau, gan gynnwys

- eu gwerth fel gwrtaith ac i wella’r pridd
- fel deunydd gwely i anifeiliaid

Gall y deunyddiau sy’n cael eu cynnig i ffermwyr gynnwys:

- gwastraff o gypswm ac o gynhyrchu sment
- gwastraff a slwtsh bwydydd
- pwlp papur a gwastraff pren
- deunydd compost a threuliad

Fel ffermwr, cyflenwr neu contractwr taenu, mae gofyn i chi wneud yn siŵr eich bod yn dilyn y rheolau ac yn gwybod beth rydych chi’n ei roi ar y pridd neu’n ei ddefnyddio ar eich fferm.

## SUT MAE CADW O FEWN Y GYFRAITH

Mae yna gyfrifoldebau cyfreithiol clir ar gynhyrchwyr gwastraff ac ar y contractwr / cyflenwr sy’n ei ddarparu i chi a / neu’n ei daenu ar eich tir. Mae’n rhaid cael trwydded amgylcheddol neu eithriad gwastraff i gyflenwi, cadw neu ddefnyddio deunydd gwastraff ac, ar gyfer rhai gweithgareddau, bydd angen caniatâd penodol<sup>1</sup> i daenu’r gwastraff. Bydd y caniatâd penodol yn golygu bod y deunydd wedi’i asesu i wneud yn siŵr y bydd o fantais amaethyddol mewn man penodol, ac o ran y gyfradd daenu, ac na fydd yn niweidio’r amgylchedd.

Fel y sawl neu’r busnes sy’n derbyn y gwastraff, rydych yn rhwym tan ‘ddyletswydd gofal’ i sicrhau bod y gwastraff a dderbyniwch yn unol â’r holl ofynion cyfreithiol angenrheidiol. Os canfyddwch nad yw’r gwastraff yn cyd-fynd â’r disgrifiad ar y nodyn trosglwyddo gwastraff, y drwydded neu’r eithriad, neu os amheuwch nad yw’r gwastraff yn addas at ei ddiben, dylech wrthod â’i dderbyn a chysylltu â’r awdurdod amgylcheddol priodol.

Gall awdurdodau archwilio trwyddedau ac eithriadau’r rhai sy’n cludo gwastraff, a hefyd weithredu yn erbyn y rhai sy’n gollwng deunyddiau anaddas neu nas caniateir.

<sup>1</sup>Caniatâd penodol yw’r caniatâd arbennig y mae ei angen o dan drwydded peiriant symudol. Bydd y sawl sy’n dal y drwydded yn ymgeisio amdano ac yn cytuno yn ei gylch gyda’r rheoleiddiwr. Mae’n parhau am 12 mis a rhaid cydymffurfio â’i amodau wrth ei ddefnyddio.

## BETH DDYLID CHWILIO AMDANO?



1	A yw'r deunydd yn wastraff? Os nad ydych yn siŵr, holwch y cyflenwyr a chael cadarnhad ysgrifenedig	
2	Wyddoch chi beth yw'r gwastraff ac o ble y daeth?	
3	A yw'r gwastraff angen eithriad, trwydded neu ganiatâd arbennig? Os nad ydych yn sicr, cysylltwch ag Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru	
4	Gwnewch yn siŵr ei fod yn cael ei ddanfôn gan gludydd gwastraff cofrestredig a gofynnwch am nodiadau trosglwyddo gwastraff pan fydd yn cyrraedd. Dylid cadw'r rhain fel cofnod am o leiaf ddwy flynedd.	
5	A yw'r eithriad wedi'i gofrestru neu a roddwyd caniatâd penodol cyn iddo ddechrau cael ei ddanfôn?	
6	Chwiliwch y gwastraff: <ul style="list-style-type: none"> <li>■ Fod y gwastraff yr hyn 'roeddech chi'n ei ddisgwyl (soled, hylif, slwtsh)</li> <li>■ Fod pob llwyth sy'n cael ei ddanfôn yn cyd-fynd â'r hyn a gytunwyd</li> <li>■ Eich bod yn cofnodi pwysau'r llwythi a dyddiad eu danfôn</li> <li>■ Oes yna lygryddion ynddo nad ydych chi eisiau eu taenu e.e. plastig, metelau, cerrig?</li> </ul>	
7	Chwiliwch y man cadw <ul style="list-style-type: none"> <li>■ A yw'r man cadw yn yr un lle ag a nodir ar y caniatâd penodol / eithriad?</li> <li>■ A yw'r gwastraff yn cael ei gadw mewn lle addas h.y. nid dros draenau tir, 10 metr o gwrs dŵr neu 50 metr o ffynnon neu dwll dŵr?</li> <li>■ A oes yna drefniadau priodol ar gyfer dal deunydd neu hylif yn gollwng?</li> <li>■ A oes yna ddigon o le rhwng wyneb y gwastraff ac ymyl y cynhwysydd?</li> <li>■ Ddylech chi ddim cadw mwy nag y byddwch angen ei daenu, a dim mwy nag a ganiateir yn y caniatâd penodol / eithriad.</li> <li>■ Ddylech chi ddim cadw gwastraff am fwy na 12 mis o dan un ai eithriad (U10) neu ganiatâd penodol.</li> <li>■ Dylai'r man cadw fod yn ddiogel heb unrhyw fynediad cyhoeddus ato (llwybrau troed ayb)</li> </ul>	
8	Chwiliwch y cais <ul style="list-style-type: none"> <li>■ A yw'r gyfradd daenu'r hyn y mae'r cnwd / pridd ei angen?</li> <li>■ A yw'r gwaith taenu'n dilyn y Côd Ymarfer Amaethyddol Da (CoGAP)?</li> <li>■ A yw'r gwaith taenu'n briodol ar gyfer amgylchiadau'r tywydd?</li> <li>■ A gydymffurfir â'r rheoliadau Parthau Perygl Nitradau?</li> <li>■ A gymerwyd camau i leihau effeithiau arogleuon, llwch neu bryfed?</li> </ul>	
9	Chwiliwch reolaeth y gweithredwr gwastraff <ul style="list-style-type: none"> <li>■ Wyddoch chi pwy sy'n gyfrifol am ofalu bod y gwaith taenu'n cael ei wneud yn iawn?</li> <li>■ Wyddoch chi eu manylion cyswllt?</li> </ul>	

Rydym ni eisiau hyrwyddo adfer gwastraff yn ddiogel ac yn gyfreithlon mewn amaethyddiaeth ond rydym ni hefyd eisiau i chi ofalu na fyddwch yn gwneud camgymeriadau a allai gostio'n ddud i chi, eich anifeiliaid neu'r amgylchedd.

Hoffech chi ganfod rhagor am eich trwydded amgylcheddol ac eithriadau gwastraff? Yn Lloegr, Cysylltwch ag Asiantaeth yr Amgylchedd

**03708 506 506** neu ewch i [www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

Cysylltwch â Cyfoeth Naturiol Cymru

**0300 065 3000** neu ewch i [www.naturalresourceswales.gov.uk](http://www.naturalresourceswales.gov.uk)